

# Diwygiedig Cynllun 2018-2033 Datblygu Lleol



Cyfrol 1  
Tachwedd 2018

## Cyfról 1 – Cynnwys

- Cofnodion 09/11/2017 tudalen 1
- Cofnodion 17/11/2017 tudalen 4
- Cofnodion 19/01/2018 tudalen 9
- Cofnodion 08/05/2018 tudalen 12
- Cofnodion 17/07/2018 tudalen 14
- Cofnodion 01/10/2018 tudalen 18
- Cofnodion 26/10/2018 tudalen 22

Mae'r Panel Cynghorol yn cynnwys aelodau Cyngor Sir Caerfyrddin. Prif bwrpas y Panel yw derbyn perchenogaeth wleidyddol ar y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig a sicrhau bod y broses o lunio'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig yn cael ei rheoli yn unol â'r gweithdrefnau a'r protocolau perthnasol. Fe wnaeth y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 31 Gorffennaf 2017, wedi cymeradwyo cyfansoddiad y Panel.

## **Panel Cynghorol y Cynllun Datblygu Lleol**

### **Tachwedd 9 2017 – Caerfyrddin – 2pm**

#### **1 Yn bresennol**

*Y Cynghorwyr:* Mair Stephens (Cadeirydd), Tyssul Evans, Ken Howell, Alun Lenny, Darren Price, John James, Sue Allen ac Ieuan Wyn Davies.

*Swyddogion:* Llinos Quelch: Pennaeth Cynllunio, Ian Llewelyn: Rheolwr Blaengynllunio, Bethan Lovering, Robert Neil Bateman ac Owain Enoch: Swyddogion Blaengynllunio a Steven P Murphy: Uwch Gyfreithiwyr.

*Arall:* Cyfieithydd

#### **2 Croeso a Chyflwyniadau**

Croesawodd y Cyng. Mair Stephens bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod.

#### **3 Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cyng. Kevin Madge

#### **4 Cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl**

4.1 Ystyriwyd y Cylch Gorchwyl drafft a ddarparwyd i'r Aelodau cyn y cyfarfod. Cyfeiriwyd at y ffaith y bydd cofnodion y Panel, ar ôl eu cadarnhau, yn cael eu hanfon at y Bwrdd Gweithredol fel rhan o gyfundrefn adrodd y CDLI.

##### **4.2 Penderfynwyd:**

- (a) Cadarnhau'r Cylch Gorchwyl fel y'i cyflwynwyd;
- (b) Nodi bod Aelodau'r Panel yn hapus i dderbyn y papurau yn Saesneg. Fodd bynnag, bydd unrhyw ddeunydd sy'n cael ei gyhoeddi yn cael ei gyfieithu yn unol â'r safonau iaith;
- (c) Nodi bod Aelodau'r Panel yn hapus i dderbyn copïau electronig o'r papurau, gan adolygu'r gofyniad am gopïau papur fesul achos unigol;
- (d) Awdurdodi'r Cyng. A Lenny i eistedd ar unrhyw Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol;
- (e) Mai'r Cyng. A Lenny fydd y Dirprwy enwebedig i gadeirio unrhyw Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol.

#### **5 Rôl y Panel**

5.1 Wrth ymhelaethu ar gynnwys y Cylch Gorchwyl, rhoddodd Ian Llewelyn drosolwg llafar o'r rôl y bwriedir i'r Panel ei chyflawni. Caiff y Panel ei weld fel plattform i gyrraedd consensws (os oes modd o gwbl gwneud hynny) ar faterion polisi allweddol, yn ogystal â dylanwadu ar y cynigion sy'n cael eu datblygu ar gyfer y cynllun reit drwodd hyd at fabwysiadu'r CDLI. Nodwyd rôl fonitro'r Panel hefyd ar ôl i'r CDLI gael ei fabwysiadu.

##### **5.2 Penderfynwyd nodi'r eitem hon.**

#### **6 Cynnwys a chanfyddiadau'r Adroddiad Monitro Blyneddol (AMB) 2**

6.1 Ystyriwyd yr adroddiad a oedd wedi'i ddarparu i'r Aelodau cyn y cyfarfod. Roedd yr AMB hwn yn cwmpasu'r cyfnod o'r 1<sup>af</sup> Ebrill 2016 hyd at 31<sup>ain</sup> Mawrth 2017. Daw'r adroddiad i'r casgliad, er ei fod o'r farn fod cynnydd wedi'i wneud o ran gweithredu llawer o bolisïau ac amcanion y Cynllun, a bod y strategaeth gyffredinol yn dal yn gadarn, fod yna elfennau nad ydynt yn cyflawni fel y bwriadwyd. O ganlyniad i gasgliadau'r AMB hwn, mae'r adroddiad yn

argymell y dylid cychwyn adolygiad cynnar o CDLI Sir Gaerfyrddin. Nodwyd bod hyn eisoes wedi bod yn destun penderfyniad gan y Cyngor ar 20<sup>fed</sup> Medi 2017 a bod gwaith yn mynd rhagddo ar yr adroddiad adolygu.

6.2 Roedd yr Aelodau'n awyddus i bwysleisio pwysigrwydd hyrwyddo agwedd leol tuag at lunio'r Cynllun, o ran yr elfennau strategaeth allweddol (e.e. gofynion tai) a pholisïau penodol (e.e. ynni adnewyddadwy). Cyfeiriwyd at Nodyn Cyngor Technegol 20 diwygiedig (para 1.4.3) o ran pwysigrwydd agwedd leol. Nodwyd ei bod yn debygol y bydd gan randdeiliaid a'r cyhoedd yn gyffredinol well dealltwriaeth o'r broses o lunio'r cynllun ac y gallai hynny fod yn fan cychwyn cryf. Trafodwyd rhai o agweddau allweddol y CDLI mabwysiedig presennol, yn fwyaf arbennig ei ofynion tai. Cadarnhawyd nad oedd Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw sylwadau ar yr AMBau hynny a oedd wedi'u cyflwyno gan y Cyngor hyd yma. Er bod y swyddogion yn cydnabod bod yr amserlen ar gyfer paratoi CDLI diwygiedig yn heriol, roedd yna brofiad yn y tîm blaengynllunio a phwysleisiwyd na fyddai angen unrhyw ddiwygio mawr ar agweddau o'r CDLI presennol.

6.3 Cafwyd trafodaeth ynglŷn â rôl bosibl Cynlluniau Bro, gyda'r swyddogion yn cadarnhau bod y Cytundeb Cyflenwi drafft sy'n cael ei lunio yn cyfeirio'n benodol atyn nhw. Roedd yr Aelodau'n awyddus i sicrhau bod y gwaith o hyrwyddo Cynlluniau Bro yn cydnabod y capasiti / cyllidebau amrywiol ac amgylchiadau lleol ar draws y Sir. Er bod y Cynlluniau Bro yn cael eu fframio yn unol â'r papur gwyn ar Gynllunio Cadarnhaol / Deddf Cynllunio 2015, dywedodd y swyddogion nad oes fformat wedi'i ragnodi ar gyfer eu cynnwys. Credir y dylent fod yn ddogfennau o dan arweiniad y gymuned ac y gallant felly yn y pen draw fod yr hyn y mae'r gymuned am iddynt ei fod. Deallir, fodd bynnag, os yw Cynllun Bro i gario pwysau mewn penderfyniadau cynllunio, fod angen iddo adlewyrchu CDLI (a chael ei fabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol). Rhagwelir y gall Cynlluniau Bro ddylanwadu hefyd ar gynlluniau datblygu'r dyfodol a'u sylfaen tystiolaeth – e.e. ardaloedd i'w datblygu, gwybodaeth am berchenogion tir, llifogydd lleol, archwiliad cyfleusterau ac anghenion seilwaith lleol. Cyfeiriwyd at y sefyllfa yn Lloegr, lle mae hwn yn offeryn statudol sydd ar gael ar ffurf cynlluniau cymdogaeth y mae modd eu mabwysiadu yn dilyn archwiliad a refferendwm.

#### 6.4 Penderfynwyd:

- (a) Nodi'r adroddiad;
- (b) Bod y swyddogion i roi gwybod i'r Panel i ba raddau y gall y Cyngor gael llais ynglŷn â phenodi Arolygydd CDLI (yn enwedig o ystyried nodweddion cymdeithasol, diwylliannol a daearyddol y Sir) a pha un y gellid cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â hyn;
- (c) Bod y swyddogion i roi gwybodaeth i'r Panel ynglŷn ag unrhyw ganllawiau sydd i gael eu cynhyrchu gan y Cyngor ynglŷn â Chynlluniau Bro.

### **7 Amlinelliad o'r CDLI a'r broses baratoadol**

7.1 Ystyriwyd yr adroddiad a oedd wedi'i ddarparu i'r Aelodau cyn y cyfarfod. Rhoddai'r adroddiad drosolwg o'r broses, yn cynnwys y gofyniad ar i'r Cyngor gynnal adolygiad llawn statudol o'i CDLI ar gyfnodau o ddim mwy na 4 blynedd ar wahân ar ôl mabwysiadu'r Cynllun yn y lle cyntaf, oni bai fod canlyniadau'r AMB yn dangos yn wahanol. Nododd yr aelodau fod y Cyngor eisoes wedi penderfynu cynnal adolygiad cynnar.

7.2 Cafwyd trafodaeth ynghylch statws y safleoedd hynny sydd wedi'u dyrannu ar hyn o bryd. Cadarnhawyd y bydd safleoedd o'r fath (lle'r oedd y dystiolaeth y gellir eu gwireddu yn gyfyngedig) yn cael eu harfarnu gan y Cyngor. Y disgwyl yw y bydd y gwahoddiad am safleoedd ymgeisiol yn para 12 wythnos, yn gynnar yn 2018. Wrth nodi pa mor berthnasol yw cynigion o safbwynt eu maint, mae'r Cyngor yn debygol o ofyn am i dystiolaeth gadarn gael ei chyflwyno o blaid dyrannu safle. Caiff gwybodaeth bellach ei darparu drwy'r fethodoleg asesu safle.

7.3 Penderfynwyd nodi'r eitem hon a chynnwys tudalen ar broses y CDLI ar y wefan gorfforaethol cyn gynted ag sy'n ymarferol er mwyn codi ymwybyddiaeth.

## **8 Y broses a'r amserlen adolygu a newid**

8.1 Ystyriwyd braslun thematig a ddarparwyd i'r Aelodau cyn y cyfarfod. Cadarnhawyd y caiff y Fethodoleg Asesu Safleoedd sy'n cael ei datblygu, yr Adroddiad Adolygu a'r Cytundeb Cyflenwi drafft eu darparu i'r Aelodau cyn ail gyfarfod y Panel. Bydd y papurau hyn yn mynd drwy'r broses adrodd dros y misoedd i ddod gyda golwg ar gyflwyno adroddiad i'r Cyngor ym mis Ionawr 2018. Mae mewnbwn Aelodau'r Panel yn bwysig felly a chroesewir sylwadau.

8.2 Er nad oes penderfyniad ffurfiol wedi'i wneud eto i baratoi CDLI diwygiedig, roedd yr Aelodau'n awyddus i gychwyn ar ymarferiad codi ymwybyddiaeth. Cytunwyd y byddai'n bosibl gwneud hyn ar y rhan o'r wefan sy'n ymdrin â'r adroddiad adolygu, er bod angen cydnabod bod y penderfyniad i baratoi CDLI diwygiedig (ac i fynd ati i geisio safleoedd ymgeisio etc) yn dal yn ddibynnol ar benderfyniad y Cyngor.

### 8.3 Penderfynwyd:

- (a) Nodi'r adroddiad;
- (b) Mynd ati ar unwaith i godi ymwybyddiaeth / lledaenu gwybodaeth am y tebygolrwydd y caiff CDLI diwygiedig ei baratoi (ac y bydd galwad am safleoedd yn gynnar yn 2018) (fel y soniwyd hefyd yn 7.3 uchod).

## **9 Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Dydd Gwener, Tachwedd 17, 2017, fydd dyddiad y cyfarfod nesaf. Hysbyswyd yr Aelodau fod yr amser wedi newid i 12.30pm ac y câi'r lleoliad ei newid o bosibl i Gaerfyrddin. Câi cadarnhad o'r amser/dyddiad a Phapurau ategol eu darparu dros yr e-bost gan y swyddogion cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.

### **Daeth y cyfarfod i ben am 15.45pm**

## **Panel Cynghorol y Cynllun Datblygu Lleol**

### **17 Tachwedd 2017 – Caerfyrddin – 12.30pm**

#### **1 Yn bresennol**

*Cynghorwyr:* Mair Stephens (Cadeirydd), Tyssul Evans, Alun Lenny, John James, Sue Allen, Kevin Madge a Ieuan Wyn Davies.

*Swyddogion:* Llinos Quelch: Pennaeth Cynllunio, Ian Llewelyn: Rheolwr Blaengynllunio, Rachel Bowen, Simon Clement ac Owain Enoch: Swyddogion Blaengynllunio a Steven P Murphy: Uwch-gyfreithiwr.

*Arall:* Cyfieithydd

#### **2 Croeso a Chyflwyniadau**

Croesawodd y Cynghorydd Mair Stephens bawb i'r cyfarfod.

#### **3 Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Y Cynghorwyr Darren Price a Ken Howell.

#### **4 Cadarnhau Cofnodion**

4.1 Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion drafft cyfarfod y Panel a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2017 ac a ddarparwyd i'r Aelodau cyn y cyfarfod.

4.2 Penderfynwyd cadarnhau'r cofnodion fel y'u cyflwynwyd a chyfarwyddo'r swyddogion i'w cymryd drwy'r broses o adrodd i'r Bwrdd Gweithredol.

#### **5 Yr Adroddiad Adolygu sydd ar waith**

5.1 Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad ysgrifenedig a ddarparwyd i'r Aelodau cyn y cyfarfod. Lluniwyd yr adroddiad yn dilyn penderfyniad y Cyngor Sir ar 20 Medi 2017, lle rhoddwyd ystyriaeth i'r ail Adroddiad Monitro Blynyddol ynghylch y Cynllun Datblygu Lleol a'i argymhellion. Mae'r adroddiad yn nodi faint o newidiadau sydd eu hangen i'r Cynllun Datblygu Lleol a'r drefn adolygu a ddilynir wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd a fydd yn cwmpasu cyfnod hyd at 2032 (sef diwedd y cynllun 15 mlynedd sy'n dechrau ar ddiwedd 2018). Mae'r argymhellion a geir yn yr adroddiad wedi cael eu llywio gan ganfyddiadau adroddiadau monitro blynyddol blaenorol, cyswllt (gan gynnwys adborth ynglŷn â gweithredu'r Cynllun Datblygu Lleol presennol), y sylfaen dystiolaeth ac arolygon parhaus. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi adolygiad o ddyraniadau a pholisïau a dywedodd yr Aelodau eu bod wedi canfod y dull "RAG" – sef coch, ambr a gwyrdd – yn ddefnyddiol mewn perthynas â'r sylwebaeth ar safleoedd a ddyrannwyd.

5.2 Daw'r adroddiad i'r casgliad y dylid dilyn y weithdrefn 'adolygu llawn' wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd. Argymhella'r Adroddiad Adolygu bod 'adolygiad llawn' o'r Cynllun yn cael ei gynnal am y prif resymau canlynol:

- Er mwyn sicrhau bod cynllun diwygiedig yn cael ei fabwysiadu cyn i'r Cynllun Datblygu Lleol presennol ddod i ben ar ddiwedd 2021;
- Er mwyn cydnabod canlyniadau'r adroddiadau monitro blynyddol, yn benodol lle'r oedd yn nodi methiannau yn y gwaith o gyflawni strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol, y fframwaith aneddiadau a dosbarthiad daearyddol y twf. Yn hynny o beth roedd angen ystyried lefel y twf a'i ddosbarthiad daearyddol er mwyn gweld a yw'r strategaeth bresennol yn parhau'n briodol; ac

- Er mwyn sicrhau bod goblygiadau Rhagamcanion Poblogaeth ac Aelwydydd Is-genedlaethol yr Awdurdod Lleol ar sail 2014 a'r amrywiant sylweddol mewn newid yn y boblogaeth a gofynion aelwydydd a nodwyd yn cael eu hystyried yn drylwyr. Mae angen deall goblygiadau'r rhagamcanion diwygiedig hyn, a'u hystyried yng nghyd-destun Sir Gaerfyrddin a chreu swyddi, twf a mewnfuddsoddi (gan gynnwys Adfywio trwy'r Fargen Ddinesig). I gyflawni hyn bydd angen adolygu'r dull strategol a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol.

5.3 Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod newidiadau cyd-destunol, newidiadau o ran deddfwriaeth, polisi cenedlaethol ac ystod o gynlluniau a strategaethau, ynghyd â newidiadau i'r sylfaen dystiolaeth hefyd yn dangos bod angen diwygio rhai polisiau a dyraniadau o fewn y Cynllun Datblygu Lleol. O ganlyniad, mae angen hefyd ail-ystyried gweledigaeth ac amcanion sylfaenol y Cynllun Datblygu Lleol o ystyried y sail ar gyfer diwygio fel y nodir uchod. Cydnabu'r Aelodau fod yr adroddiad hefyd yn dod i'r casgliad bod llawer o agweddau ar y Cynllun Datblygu Lleol presennol a fabwysiadwyd yn gweithredu'n effeithiol ac yn cyflawni yn ôl y disgwyl. O ganlyniad, ni fydd llawer o elfennau'r Cynllun Datblygu Lleol presennol yn gofyn am fwy na newidiadau ansylweddol.

5.4 Er mai rôl yr Aelodau etholedig oedd rhoi cyfeiriad strategol i Gynllun Datblygu Lleol diwygiedig, roedd yr Aelodau'n awyddus i bwysleisio ei bod yn hollbwysig ymgysylltu ac ymgynghori'n effeithiol â rhanddeiliaid, gan gynnwys y cyhoedd yn gyffredinol. Bu'r Aelodau'n trafod a thynnu sylw at rai materion allweddol i'w hystyried fel rhan o unrhyw Gynllun Datblygu Lleol diwygiedig. Roedd y trafodaethau'n cynnwys yr angen am dai cymdeithasol, datblygu gwerthfawrogiad o anghenion ardaloedd gwledig a hefyd mor bwysig yw cydnabod effaith datblygiadau ar seilwaith caled (e.e. priffyrdd) a seilwaith meddal (e.e. y gwead cymdeithasol / diwylliannol). Pwysleisiodd yr Aelodau y dylai maint y safleoedd hynny a glustnodir fod yn ystyriaeth bwysig hefyd. Mewn perthynas â chyflwyno Ardoll Seilwaith Cymunedol ar gyfer Sir Gaerfyrddin, cadarnhaodd y swyddogion fod adroddiad wedi cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 20 Medi 2017. Bydd yr Ardoll Seilwaith Cymunedol yn cael ei datganoli i Lywodraeth Cymru o dan Ddeddf Cymru 2017 ac felly mae'n cael ei dal yn ôl gan y Cyngor hyd nes y ceir rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru.

5.5 Nododd yr Aelodau fod yr adroddiad, fel y'i cyflwynwyd, yn fersiwn ddrafft sydd ar waith a fydd yn cael ei mireinio a'i datblygu wrth iddi fynd yn ei blaen a chael ei hadrodd i'r Cyngor ym mis Ionawr 2018. I'r perwyl hwn, dywedodd y swyddogion y byddent yn croesawu unrhyw sylwadau gan Aelodau'r Panel er mwyn cyfrannu at yr adolygiadau parhaus. Byddai'r adroddiad adolygu'n rhan o sylfaen dystiolaeth y Cyngor cyn adneuo pe cytunir i baratoi Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig, ac felly byddai'n rhan o'r ymgynghoriad cyn adneuo yn y cam 'Strategaeth a Ffefrir'.

#### 5.6 Penderfynwyd:

- (a) Nodi'r adroddiad;
- (b) Bod Aelodau'r Panel yn fodlon bod yr adroddiad, fel y'i drafftwyd, yn mynd trwy'r broses o gael ei adrodd a bod cyfieithiad yn cael ei drefnu;
- (c) Bod Aelodau'r Panel yn cyflwyno sylwadau yn ddi-oed er mwyn cyfrannu at adolygiadau parhaus yr adroddiad wrth iddo symud yn ei flaen drwy'r broses adrodd dros y misoedd sydd i ddod.

## **6 Cytundeb Cyflawni Drafft sydd ar waith**

6.1 Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad ysgrifenedig a ddarparwyd i'r Aelodau cyn y cyfarfod. Mae'r adroddiad yn nodi'r Cytundeb Cyflawni Drafft ar gyfer paratoi unrhyw Gynllun Datblygu Lleol diwygiedig ar gyfer Sir Gaerfyrddin (2018 – 2032). Yn amodol ar drafodaethau'r Cyngor mewn perthynas â'r adroddiad adolygu, bydd y gwaith yn cychwyn ar baratoi CDLI Diwygiedig

yn gynnar yn 2018. Y cam cyntaf wrth baratoi unrhyw Gynllun Datblygu Lleol diwygiedig yw paratoi Cytundeb Cyflawni. Mae'r Cytundeb Cyflawni'n cynnwys amserlen o'r camau allweddol ar gyfer paratoi unrhyw gynllun datblygu lleol diwygiedig a chynllun cynnwys y gymuned sy'n nodi sut a phryd y gallai rhanddeiliaid a'r gymuned gyfrannu at broses baratoi'r Cynllun.

6.2 Cafwyd trafodaeth am ddwy o elfennau allweddol y Cytundeb Cyflawni, sef yr amserlen a'r ymwneud â'r rhanddeiliaid. Mewn perthynas â'r cyntaf, dywedodd y swyddogion fod yr amserlen a nodwyd yn y Cytundeb Cyflawni ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd yn anodd ond realistig. Oddi ar ddechrau'r broses yn y Flwyddyn Newydd, y disgwyl yw y bydd unrhyw gynllun datblygu lleol diwygiedig yn cael ei fabwysiadu erbyn Medi 2021. Mae'r amserlen anodd hon ar gyfer mabwysiadu yn adlewyrchu disgwyliad cyffredinol Llywodraeth Cymru bod cynlluniau datblygu lleol yn cael eu paratoi a'u mabwysiadu o fewn 4 blynedd. Mae hefyd yn sicrhau, yn hanfodol, fod Cynllun Diwygiedig ar waith cyn i'r Cynllun presennol a fabwysiadwyd ddod i ben ar ddiwedd 2021.

6.3 Bu'r Aelodau'n mynegi eu pryderon am yr amserlen ac elfennau gorchmynnol y Cytundeb Cyflawni fel y'u pennwyd gan Lywodraeth Cymru. Cyfeiriwyd at benderfyniad a wnaed yn y cyfarfod blaenorol ynghylch mor bwysig yw hi i'r Arolygydd ddatblygu dealltwriaeth o wead daearyddol a chymdeithasol y Sir (ac a ellid cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru yn hyn o beth). Roedd consensws o safbwynt gweinyddol o ran y budd ymarferol o osod 1/4/18 yn ddyddiad dechrau / sylfaen ar gyfer unrhyw gynllun datblygu lleol diwygiedig. Hefyd nododd yr aelodau'r cyfeiriad yn yr adroddiad at sefydlu Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd cadarnhau'r bwriad i'w sefydlu ar yr amod bod y Panel yn cadarnhau ei gylch gorchwyl a'i aelodaeth. Cynghorodd yr Aelodau'r Swyddogion i adolygu a chadarnhau rôl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â pharatoi unrhyw gynllun datblygu lleol diwygiedig, yn enwedig parthed y Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol a'i rôl/aelodaeth.

6.4 O ran ymgysylltu â rhanddeiliaid, dywedodd y Swyddogion fod cynllun y Cytundeb Cyflawni o ran cynnwys y gymuned yn amlinellu'r canlynol: strategaeth gyfranogi'r Cyngor; rôl yr Awdurdod Cynllunio Lleol, Cynghorwyr a Swyddogion; y ffyrdd o ymgysylltu â'r cyrff, yr asiantaethau a'r sefydliadau sydd ynghlwm â'r broses; beth mae'r Cyngor yn ei ddisgwyl gan y rhanddeiliaid a'r cyfranogwyr sydd ynghlwm â'r broses a beth y gallan nhw ei ddisgwyl gan y Cyngor. Nodwyd bod cyfeiriad penodol at gyfraniad posibl y Cynlluniau Lleodedd, fel y nodwyd yng nghyfarfod blaenorol y Panel ar 9 Tachwedd 2017. Cynghorodd yr Aelodau'r Swyddogion i gydnabod rôl bosibl cyfryngau cymdeithasol wrth godi ymwybyddiaeth o'r broses a'r cyfnodau ymgynghori pwysig – e.e. safleoedd ymgeisio.

6.5 Cadarnhawyd gan swyddogion y byddai'r Cytundeb Cyflawni yn destun ymgynghoriad cyn iddo gael ei anfon yn ffurfiol at Lywodraeth Cymru am sêl bendith. Unwaith y cytunir arno, mae'r Cytundeb Cyflawni yn ymrwymo'r Cyngor i lunio Cynllun Datblygu Lleol newydd yn unol â'r amserlenni a nodwyd a thrwy'r prosesau ymgynghori a nodwyd. Mae'r Cytundeb Cyflawni yn rhan o'r broses statudol ar gyfer llunio Cynllun Datblygu Lleol ac felly mae'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth.

6.6 Nododd yr Aelodau fod yr adroddiad, fel y'i cyflwynwyd, yn fersiwn ddrafft sydd ar waith a fydd yn cael ei mireinio a'i datblygu wrth iddi fynd yn ei blaen a chael ei hadrodd i'r Cyngor ym mis Ionawr 2018. I'r perwyl hwn, dywedodd y swyddogion y byddent yn croesawu unrhyw sylwadau gan Aelodau'r Panel er mwyn cyfrannu at yr adolygiadau parhaus.

#### 6.7 Penderfynwyd:

- (a) Nodi'r adroddiad;



- (b) Bod Aelodau'r Panel yn cyflwyno sylwadau yn ddi-oed er mwyn cyfrannu at adolygiadau parhaus yr adroddiad wrth iddo symud yn ei flaen drwy'r broses adrodd dros y misoedd sydd i ddod, a threfnu cyfieithiad;
- (c) Bod y Panel yn cadarnhau 1 Ebrill 2018 yn ddyddiad dechrau / sylfaen ar gyfer unrhyw gynllun datblygu lleol diwygiedig – wedi hynny bydd cyfnod y Cynllun yn dod i ben ar 31 Mawrth 2033;
- (d) Bod y Panel yn cadarnhau'r penderfyniad i sefydlu Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol. Fodd bynnag, cyn y cynhelir unrhyw Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol rhaid i'r Panel gymeradwyo cylch gorchwyl y Fforwm a'i aelodaeth arfaethedig;
- (e) Cynghorodd yr Aelodau'r Swyddogion i adolygu a chadarnhau rôl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â pharatoi unrhyw gynllun datblygu lleol diwygiedig, yn enwedig parthed y Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol a'i rôl/aelodaeth.

## **7 Methodoleg Asesu Safleoedd (ar waith) a galwad am Safleoedd Ymgeisio**

7.1 Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad ysgrifenedig a ddarparwyd i'r Aelodau cyn y cyfarfod, gan gynnwys y Fethodoleg Asesu Safleoedd (ar waith). Nododd yr aelodau y bwriedir ymgymryd â rhai elfennau o gam Cyn Adneuo'r Cynllun Datblygu Lleol ar yr un pryd ag ymgynghoriad y Cytundeb Cyflawni (a chyn unrhyw gytundeb ynghylch y Cytundeb Cyflawni). Nod hyn yw sicrhau bod unrhyw gynllun datblygu lleol diwygiedig yn cael ei baratoi mewn modd amserol sy'n unol â'r amserlen a amlinellir yn y Cytundeb Cyflawni. Fodd bynnag, dylid nodi na fydd ymgynghoriad yn dechrau heb fod penderfyniad ffurfiol yn y Cyngor i ddechrau ar y gwaith o baratoi unrhyw gynllun datblygu lleol diwygiedig yn gynnar yn 2018. I'r perwyl hwn, cyfeirir at gofnod 5 y cofnodion hyn.

7.2 Mae un elfen o'r fath y cyfeirir ati yn 7.1 uchod yn ymwneud â hysbysebu safleoedd ymgeisio neu 'alw' amdanynt. Mae hwn yn gam allweddol gan ei fod yn rhoi cyfle i dirfeddianwyr, partion sydd â diddordeb a datblygwyr gyflwyno safleoedd i'w hystyried ar ddechrau'r gwaith o baratoi'r Cynllun. Nododd yr Aelodau mai ar yr adeg hon y dylai'r rhai sy'n dymuno cynnig safleoedd i'w cynnwys yn y Cynllun Adneuo – sy'n cynnwys terfynau datblygu, dyraniadau defnydd tir a materion eraill sy'n benodol i'r safle – wneud hynny.

7.3 Nododd yr Aelodau fod y Fethodoleg Asesu Safleoedd yn ceisio darparu fframwaith ar gyfer ystyried safleoedd o'r fath. Un o'i amcanion yw nodi gofynion y Cyngor ar gyfer cynnigwyr safleoedd. Mae'n ceisio gwneud hyn mewn dull cymesur sy'n adlewyrchu graddfa a chymhlethdod y safleoedd. Mae'r Fethodoleg yn mynnu bod safleoedd a gynigir i'w clustnodi yn darparu gwybodaeth benodol am agweddau megis mynediad a hyfywedd fel bod modd ystyried yn effeithiol y gallu i'w cyflawni. Bydd y Fethodoleg yn destun ailadrodd wrth i'r broses o lunio'r Cynllun fynd rhagddo. Nodwyd nad oes cam Safleoedd Amgen mwyach.

7.4 Cyfeiriodd yr Aelodau at benderfyniad a wnaed yng nghyfarfod y Panel Ymgynghorol ar 9 Tachwedd 2017, sef bod tudalen am broses y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei chynnwys ar y wefan gorfforaethol cyn gynted ag y bo modd a hynny er mwyn codi ymwybyddiaeth. Cafwyd trafodaeth hefyd ar hyd arfaethedig yr "alwad" am safleoedd ymgeisio ac roedd consensws bod "cyfnod galw" o 16 wythnos yn briodol yn hyn o beth. Er y byddai mwy o bwyslais ar greu cynlluniau a chyflwyniadau yn electronig, cadarnhaodd y swyddogion y byddai copïau papur / cyflwyniadau ar gael o hyd ar gais.

7.5 Cafwyd trafodaeth ynghylch a fyddai safle ymgeisio yn gallu cael ei gyflwyno gan gynigydd nad oedd yn berchen ar y safle. Cadarnhaodd y swyddogion y byddai perchnogaeth y safle yn ystyriaeth o ran y gallu i gyflawni'r safle. Cadarnhawyd y gellid cyflwyno amryfal gyflwyniadau at wahanol ddibenion tirol. Mynegodd yr Aelodau mor bwysig yw cynnwys terminoleg briodol mewn unrhyw gynllun datblygu lleol diwygiedig a phwysleisiasant hefyd

mor bwysig yw hi i swyddogion ymgysylltu â'r Aelod lleol ar adegau priodol o fewn y broses o lunio'r cynllun - e.e. sesiynau galw heibio. Wrth nodi y byddai'r broses o ddewis safle'n destun gwerthusiad proffesiynol gan swyddogion, byddai unrhyw argymhellion gan swyddogion yn sgil hynny yn dal i orfod cael eu cymeradwyo gan y Cyngor ac felly byddai cyfeiriad strategol y Cynllun yn nwylo'r Aelodau.

7.6 Hefyd, nododd yr Aelodau y byddid yn ychwanegu at y Fethodoleg a'i datblygu i sicrhau bod y wybodaeth y gofynnir amdani yn adlewyrchu'r cam hwnnw yn y broses o baratoi'r Cynllun, ac yn gymesur iddo. Fe'i datblygir hefyd ar ffurf holiadur ar-lein i roi cymorth a chyfarwyddyd ar wneud cyflwyniad, a bydd hefyd yn cynnig dolenni i ffynonellau data a gwybodaeth ar wefannau'r Cyngor a phartneriaid perthnasol. Dywedodd y swyddogion y byddent yn croesawu unrhyw sylwadau gan Aelodau'r Panel er mwyn cyfrannu at yr adolygiadau parhaus.

#### 7.7 Penderfynwyd:

- (a) Nodi'r adroddiad;
- (b) Bod Aelodau'r Panel yn cyflwyno sylwadau yn ddi-oed er mwyn cyfrannu at adolygiadau parhaus yr adroddiad wrth iddo symud yn ei flaen drwy'r broses adrodd dros y misoedd sydd i ddod, a threfnu cyfieithiad;
- (c) Bod y Panel yn cadarnhau "cyfnod galw" o 16 wythnos ar gyfer safleoedd ymgeisio;
- (d) Bod y Panel yn cael bwrw golwg ar y papur Asesu Safleoedd yn ei gyfarfod nesaf.

### **8 Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Bydd dyddiad y cyfarfod nesaf yn cael ei gadarnhau maes o law ond mae'n debygol o gael ei gynnal ym mis Ionawr 2018 ar ôl i'r adroddiad adolygu a phapurau eraill gael eu cyflwyno i'r Cyngor ar 10 Ionawr 2018.

#### **Daeth y cyfarfod i ben am 2.10pm**

## **Panel Cynghorol y Cynllun Datblygu Lleol**

**19 Ionawr 2018 - Caerfyrddin - 14:00pm**

### **1 Yn bresennol**

*Cynghorwyr:* Mair Stephens (Cadeirydd), Tyssul Evans, John James, Sue Allen, Kevin Madge, Darren Price, Ken Howell, Ieuan Wyn Davies ac Alun Lenny (14.08pm).

*Swyddogion:* Ian Llewelyn: Rheolwr Blaen-gynllunio, Owain Enoch a Simon Clement: Swyddogion Blaengynllunio a Steven P Murphy: Uwch-gyfreithiwr.

### **2 Croeso a Chyflwyniadau**

Croesawodd y Cynghorydd Mair Stephens bawb i'r cyfarfod. Gofynnwyd i'r swyddogion egluro'r sefyllfa o ran diffyg presenoldeb cyfieithydd.

### **3 Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Dim.

### **4 Cadarnhau Cofnodion**

4.1 Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion drafft cyfarfod y Panel a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2017 a ddarparwyd i'r Aelodau cyn y cyfarfod.

4.2 Penderfynwyd cadarnhau'r cofnodion fel y'u cyflwynwyd a chyfarwyddo'r swyddogion i'w cymryd drwy'r broses o adrodd i'r Bwrdd Gweithredol.

### **5 Camau gweithredu presennol**

5.1 Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad a roddwyd ar lafar gan swyddogion a oedd yn crynhoi'r cynnydd sy'n cael ei wneud ynghylch y camau gweithredu presennol yn dilyn cyfarfodydd blaenorol y Panel.

5.2 Penderfynwyd nodi yr adroddiad a roddwyd ar lafar a chyfarwyddo swyddogion i restru unrhyw eitemau perthnasol ar agendâu'r Panel yn y dyfodol lle bo hynny'n briodol.

### **6 Gohebiaeth gan Lesley Griffiths AC i Arweinydd a Phrif Weithredwr y Cyngor**

6.1 Er nad oedd ar yr agenda, ystyriodd y Cadeirydd fod angen i'r Panel ystyried cynnwys y llythyr fel mater o frys. Roedd y llythyr, dyddiedig 13 Rhagfyr 2017, yn gofyn am baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru. Roedd Lesley Griffiths AC yn ceisio cael ymatebion i gynnwys y llythyr erbyn 28 Chwefror 2018.

6.2 Mynegodd yr aelodau bryderon ynghylch nifer o faterion, yn enwedig o ran y diffyg eglurdeb ynghylch yr aliniad a'r cyd-destun strategol (y Fargen Ddinesig, Partneriaeth Canolbarth Cymru a'r Cynlluniau Datblygu Strategol datblygol a oedd ar waith). Nodwyd hefyd nad yw'r llythyr yn nodi sut y byddai paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd yn cynnig unrhyw arbedion effeithlonrwydd a gwell canlyniadau.

6.3 Mynegwyd pryderon ynghylch y costau posibl ac amser swyddogion petai Lesley Griffiths AC yn ymyrryd yn y paratodau ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig. Pryderwyd y gallai Lesley Griffiths AC roi cyfarwyddyd i baratoi Cynllun ar y cyd neu benderfynu y byddai unrhyw Gynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin diwygiedig â diffyg statws statudol. Cadarnhaodd swyddogion y gallai'r Gweinidog a Llywodraeth Cymru atal y paratodau ar gyfer Cynllun statudol drwy wrthod cymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni, fodd bynnag ceisir cael rhagor o eglurhad ynghylch pwerau cyfarwyddo. Tynnwyd sylw at y risgiau a allai godi o

ganlyniad i weithredu cyn cael eglurhad ynghylch dull gweithredu'r Gweinidog os na chytunir ar Gynllun ar y cyd. Wrth nodi'r risgiau hyn, roedd barn gyffredinol y dylid parhau â pharatoadau'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Penderfynodd y Panel mai'r risg fwyaf i Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd yw y bydd yn Gyngor "*di-gynllun*" erbyn 2021 a byddai oedi yn yr amserlen yn ystod y cyfnod cynnar hwn yn anodd ei oresgyn.

6.4 Nodwyd y bydd trafodaethau pwysig yn cael eu cynnal yn ystod yr wythnosau nesaf gyda Lesley Griffiths AC a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Yn ogystal bydd ymateb corfforaethol i'r llythyr yn cael ei ysgrifennu cyn 28 Chwefror 2018. Cynghorodd Aelodau'r Panel y bydd Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol yn cael eu cynghori a'u briffio lle bo hynny'n briodol.

#### 6.5 Penderfynwyd:

- (a) Dosbarthu copi o'r llythyr gan Lesley Griffiths AC i Aelodau'r Panel ar unwaith;
- (b) Y dylid parhau â pharatoadau'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig ar gyfer Sir Gaerfyrddin y unol â phenderfyniad y Cyngor llawn ar 10 Ionawr 2018;
- (c) Adlewyrchu y pryderon a fynegwyd gan Aelodau'r Panel yn yr ymateb corfforaethol sy'n cael ei ysgrifennu at Lesley Griffiths AC ac yn y trafodaethau / cyfarfodydd pwysig yn y dyfodol;
- (d) Y dylid cynghori a briffio Aelodau Cynulliad / Aelodau Seneddol fel sy'n briodol;
- (e) Ceisio cael eglurdeb ynghylch y posibilrwydd y gall Lesley Griffiths AC roi cyfarwyddyd o ran paratoadau'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

### **7 Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol: Cylch Gwaith**

7.1 Rhoddwyd ystyriaeth i'r Fersiwn drafft o'r cylch gwaith a ddarparwyd i'r Aelodau cyn y cyfarfod.

7.2 Penderfynwyd: cadarnhau'r Cylch Gwaith, fel y'i cyflwynwyd, yn amodol ar newidiadau'r Panel.

### **8 Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol: Aelodaeth**

8.1 Rhoddwyd ystyriaeth i'r rhestr aelodaeth ddrafft a ddarparwyd i'r Aelodau cyn y cyfarfod.

8.2 Penderfynwyd: cadarnhau'r rhestr aelodaeth fel y'i cyflwynwyd, yn amodol ar newidiadau'r Panel ynglŷn â hynny.

### **9 Ymgysylltu â'r Gymuned**

9.1 Rhoddwyd ystyriaeth i'r papur cwmpasu a ddarparwyd i'r Aelodau cyn y cyfarfod. Nodwyd bod y Cytundeb Cyflawni, fel y cymeradwywyd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gan y Cyngor llawn ar 10 Ionawr 2018, yn cynnwys Cynllun Cynnwys Cymunedau.

9.2 Cadarnhaodd swyddogion eu bod wedi cynnal trafodaethau archwilio gyda Chymorth Cynllunio Cymru, gyda golwg ar eu comisiynu i helpu ag ymgysylltu cymunedol. Cafwyd cynnig am y gost gan Gymorth Cynllunio Cymru ac mae'n cael ei hystyried ar hyn o bryd. Rhan allweddol o gynnis Cymorth Cynllunio Cymru yw cynorthwyo i hwyluso'r Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol.

9.3 Cynghorodd Aelodau'r Panel fod cyfryngau cymdeithasol yn rhoi cyfleoedd sylweddol a chadarnhaodd swyddogion fod trafodaethau hefyd yn parhau gyda thîm y wasg a chyfryngau'r Cyngor. Cadarnhaodd swyddogion eu bod hefyd yn edrych ar y posibilrwydd o gomisiynu animeiddiad i sbarduno diddordeb.

#### 9.4 Penderfynwyd:

(a) Nodi'r adroddiad a ddarparwyd;

(b) Cymeradwyo rôl bosibl Cymorth Cynllunio Cymru o ran cynorthwyo ag ymgysylltu cymunedol; yn amodol ar gytuno ar y camau priodol a'r gwasanaethau a gynigir, cynnig am gost a chadarnhad ynghylch materion caffael; a

(c) Cynnal cyfarfod cyntaf y Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol cyn gynted â phosibl.

#### **10 Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Bydd dyddiad y cyfarfod nesaf yn cael ei gadarnhau maes o law, yn ddibynnol ar ganlyniad yr ohebiaeth â Lesley Griffiths AC (mae cofnod rhif 6 yn cyfeirio at hyn).

## **Panel Cynghorol y Cynllun Datblygu Lleol**

**8 Mai 2018 – Caerfyrddin – 10am, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, Y Siambr.**

### **1. Yn Bresennol**

*Cynghorwyr:* Mair Stephens (Cadeirydd), Tyssul Evans, Ken Howell, Alun Lenny, John James, Sue Allen ac Ieuan Wyn Davies.

*Swyddogion:* Llinos Quelch: Pennaeth Cynllunio, Ian Llewelyn: Rheolwr Blaengynllunio, Bethan Lovering ac Owain Enoch: Swyddogion Blaengynllunio a Steven P Murphy: Uwchgyfreithiwr.

*Arall:* Mr James Davies: Cymorth Cynllunio Cymru a Chyfieithydd.

### **2. Croeso a Chyflwyniadau**

Croesawodd y Cynghorydd Mair Stephens bawb i'r cyfarfod.

### **3. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd Darren Price.

### **4. Cadarnhau Cofnodion**

4.1 Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion drafft cyfarfod y Panel a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2018 ac a ddarparwyd i'r Aelodau cyn y cyfarfod.

4.2 Penderfynwyd cadarnhau'r cofnodion fel y'u cyflwynwyd a chyfarwyddo'r swyddogion i'w cymryd drwy'r broses o adrodd wrth y Bwrdd Gweithredol.

### **5. Camau gweithredu presennol**

5.1 Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad a roddwyd ar lafar gan swyddogion a oedd yn crynhoi'r cynnydd oedd yn cael ei wneud ynghylch y camau gweithredu presennol yn dilyn cyfarfodydd blaenorol y Panel.

5.2 Penderfynwyd nodi'r adroddiad.

### **6. Mr James Davies - Cymorth Cynllunio Cymru**

6.1 Cyflwynodd Mr Davies ei hun a'r gwaith a wneir gan Gymorth Cynllunio Cymru. Mae rhan o waith y sefydliad yn cynnwys darparu hyfforddiant i Gynghorau Cymuned a Chynghorau Tref, a chynnal digwyddiadau ar gyfer pynciau megis Cynlluniau Cynefin ac Ymgynghori Cyn Ymgeisio. Yn ogystal, gall y cyhoedd gael cymorth drwy eu cynllunwyr gwirfoddol ac ar eu gwefan. Mae'r gwaith diweddar wedi cynnwys rhoi cyngor ar gynlluniau cynefin, y mae'r rhan fwyaf ohono ar gael ar y wefan: [placeplans.org.uk/cy](http://placeplans.org.uk/cy)

6.2 Mae Cymorth Cynllunio Cymru hefyd yn gweithio gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol er mwyn eu helpu i ymgysylltu â chymunedau. O ran cynnwys Cyngor Sir Caerfyrddin, bydd Cymorth Cynllunio Cymru yn cynorthwyo i hwyluso'r Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol a gynhelir ar 23 Mai 2018.

6.3 Rhoddodd Mr Davies drosolwg byr ar sut y bydd y Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol cyntaf yn cael ei gynnal. Sesiwn hyfforddiant fydd y rhan gyntaf er mwyn deall y cyd-destun a sgiliau sylfaenol cynllunio, pam mae Cynlluniau Datblygu Lleol yn bwysig, beth maent yn cynnwys a beth nad ydynt yn cynnwys, a'r broses o'u paratoi. Hefyd, rhoddir ystyried i sut y mae Cynlluniau Datblygu Lleol yn cyd-fynd â strategaethau a dogfennau eraill. Bydd trafodaethau'n cael eu cynnal yng nghyd-destun y nodau a'r amcanion llesiant. Bydd cyd-

destun cynllunio defnydd y tir yn cael ei bennu drwy ystyried canfyddiadau adroddiad adolygu'r CDLI a thynnu sylw'r cynllunwyr at yr heriau wrth baratoi'r CDLI. Bydd ail ran y Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol yn hwyluso trafodaethau am wahanol bynciau, gyda'r nod o hwyluso'r gwaith o gynhyrchu materion. Bydd Cymorth Cynllunio Cymru yn coladu'r wybodaeth i adroddiad ar gyfer y Cyngor.

6.4 Trafododd y Panel amrywiaeth o faterion, gan gynnwys: yr amser priodol i gynnal Fforymau Rhanddeiliaid Allweddol a sut i annog pobl, cymunedau a'r wasg i gymryd rhan. Rhoddwyd cyfeiriad strategol gan y Panel o ran ystod o faterion allweddol cyn y Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol. Roedd y rhain yn cynnwys: rôl bosibl cynlluniau cynefin; strategaeth ofodol briodol; ystadau diwydiannol gwledig; adeiladau gwag; cyfleusterau cymunedol mewn datblygiadau mwy o faint; a lleoliad tai fforddiadwy ar safleoedd.

6.5 Daeth y Cyngorydd David Jenkins i mewn i'r ystafell gyfarfod fel sylwedydd am 10.44am ac roedd yn gallu cyfrannu at y trafodaethau yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd. Arhosodd y Cyngorydd Jenkins yn yr ystafell tan ddiwedd y cyfarfod.

6.6 Penderfynwyd diolch i Mr Davies am ei gyflwyniad llawn gwybodaeth. Ymatebodd Mr Davies mewn modd priodol.

## **7. Llythyr gan Lesley Griffiths A.C. ynghylch Cynlluniau Datblygu Lleol ar y cyd**

7.1 Cyfeiriwyd at y llythyr dyddiedig 29 Mawrth 2018 a ddarparwyd i'r Aelodau cyn y cyfarfod.

7.2 Penderfynwyd nodi'r llythyr.

## **8. Sylwadau ynghylch y Cytundeb Cyflawni Drafft**

8.1 Cyfeiriwyd at yr adroddiad a ddarparwyd i'r Aelodau cyn y cyfarfod. Hwylusodd y Swyddogion adolygiad o'r adroddiad a nodwyd y sylwadau a gafwyd ac eglurwyd newidiadau arfaethedig, gan gynnwys y newidiadau i'r amserlen.

8.2 Penderfynwyd nodi'r adroddiad.

## **9. Safleoedd Ymgeisio**

9.1 Rhoddodd y Swyddogion y wybodaeth ddiweddaraf i'r Panel o ran trafodaethau â Llywodraeth Cymru, a dywedodd fod angen estyn dyddiad cau'r Safleoedd Ymgeisio hyd at 29 Awst 2018 ac y bydd hyn yn cael ei gyhoeddi maes o law. Cadarnhawyd bod gan y Pennaeth Cynllunio awdurdod a ddirprwywyd i estyn y dyddiad cau. Roedd yr aelodau'n awyddus bod yr estyniad hwn yn cael digon o gyhoeddusrwydd.

9.2 Penderfynwyd nodi'r adroddiad.

## **10. Paratoi'r Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol**

10.1 Dywedodd y Swyddogion fod fersiwn Drafft dros dro o'r Arfarniad Cynaliadwyedd/Adroddiad Cwmpasu Asesiad Amgylcheddol Strategol wedi'i baratoi a'i anfon i Cymorth Naturiol Cymru a Cadw er mwyn cael gwybod eu barn gychwynnol cyn dechrau ar ymgynghoriad cyhoeddus llawn cyn bo hir. Yn ogystal, mae'r Adain Flaen-gynllunio yn recriwtio Swyddog Cynaliadwyedd a Chymorth Ecolegol (Polisi).

10.2 Penderfynwyd nodi'r adroddiad.

## **11 Diwedd y Cyfarfod a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.50am. Dyddiad y cyfarfod nesaf i'w gadarnhau.

## **Panel Cynghorol y Cynllun Datblygu Lleol**

### **Gorffennaf 17 2018 - Caerfyrddin - 10.00am**

#### **1 Yn bresennol**

1.1 *Cynghorwyr*: Alun Lenny (Cadeirydd), Tyssul Evans, John James, Sue Allen, Kevin Madge a Ken Howell.

1.2 *Swyddogion*: Ian Llywelyn: Rheolwr Blaen-gynllunio, Rachel Jones ac Owain Enoch, Swyddogion Blaen-gynllunio.

#### **2 Cadeirydd**

2.1 Penderfynwyd y byddai'r Cynghorydd Lenny yn cadeirio'r cyfarfod yn absenoldeb y Cynghorydd Stephens.

#### **3 Croeso a Chyflwyniadau**

3.1 Croesawodd y Cynghorydd Lenny bawb i'r cyfarfod

#### **4 Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

4.1 Cynghorwyr Mair Stephens a Darren Price

4.2 Llinos Quelch a Steve Murphy.

#### **5 Cadarnhau Cofnodion**

5.1 Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion drafft cyfarfod y Panel a gynhaliwyd ar 8 Mai 2018 ac a ddarparwyd i'r Aelodau cyn y cyfarfod.

5.2 Penderfynwyd cadarnhau'r cofnodion fel y'u cyflwynwyd a chyfarwyddo'r swyddogion i'w cymryd drwy'r broses o adrodd i'r Bwrdd Gweithredol.

#### **6 Camau gweithredu presennol**

6.1 Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad a roddwyd ar lafar gan swyddogion a oedd yn crynhoi'r cynnydd sy'n cael ei wneud ynghylch y camau gweithredu presennol yn dilyn cyfarfodydd blaenorol y Panel.

6.2 Penderfynwyd nodi'r adroddiad a roddwyd ar lafar a chyfarwyddo swyddogion i restrri unrhyw eitemau perthnasol ar agendâu'r Panel yn y dyfodol lle bo hynny'n briodol.

#### **7 Adrodd i'r Bwrdd Gweithredol am Funudau a Chylch Gwaith y Panel**

7.1 Dywedodd y swyddogion y byddant yn adrodd am gofnodion cymeradwy cyfarfodydd y Panel ar 9 Tachwedd 2017, 17 Tachwedd 2017 a 19 Ionawr 2018 (ynghyd â'r Cylch Gwaith), yng nghyfarfod y Bwrdd Gweithredol ar 30 Gorffennaf 2018.

7.2 Penderfynwyd nodi'r wybodaeth ddiweddaraf a ddarparwyd.

#### **8 Cyfarfod y Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol - 23 Mai 2018**

8.1 Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad adborth a ddarparwyd i'r Aelodau cyn y cyfarfod. Roedd yr aelodau'n falch o nodi bod ymdrechion yn cael eu gwneud i gydgysylltu â'r grwpiau hynny nad oedd wedi cymryd rhan yn y Fforwm eto, pobl ifanc a chynrychiolwyr y diwydiant datblygu yn benodol.



8.2 Aeth yr aelodau ati i drafod rhai o'r materion a nodwyd yn yr adroddiad ac yn sgil hyn rhoddwyd cyfeiriad strategol pellach ar rai o faterion allweddol y Cynllun. Roedd y rhain yn cynnwys:

- sicrhau cyflenwad tir ar gyfer rhandiroedd er mwyn diwallu'r anghenion a nodwyd;
- defnyddio hen goridorau cyswllt - e.e. ar gyfer llwybrau beicio;
- adolygu cwmpas a mecanweithiau Adran 106 (nodwyd bod y seminar yn cael ei threfnu);
- sicrhau cyflenwad tir er mwyn sicrhau bod cwmni adeiladu tai y Cyngor yn cyflawni'r gwaith;
- pwysleisio bod sefydliadau eraill angen cynigion integredig a fforddiadwy - e.e. ad-drefnu gofal iechyd - agor ar benwythnosau ond a oes trafndiaeth gyhoeddus?;
- datblygu diffiniadau, canllawiau a chynnal archwiliad o adeiladau diangen / adfeiliedig y Cyngor, a bod ymagwedd polisi hyblyg / Canllawiau Cynllunio Atodol yn sgil hynny os yw'n bosibl;
- angen datblygu methodoleg ar gyfer asesu'r effaith ar iaith er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu'r polisi - ar y cyd ag Awdurdodau cyfagos o bosibl (cyfeiriwyd at benderfyniad apêl diweddar yn Cross Hands);
- o ran swyddi gwledig - a ellir defnyddio adeilad amaethyddol "modern", nad yw'n cael ei ddefnyddio, fel uned ddiwydiannol yn hytrach na'i fod yn cael ei adael yn wag?

8.3 Penderfynwyd nodi'r adroddiad a ddarparwyd.

8.4 Penderfynwyd cynnal cyfarfodydd y Fforwm yn y dyfodol mewn lleoliadau gwahanol ledled y Sir lle bo hynny'n ymarferol. Derbyniwyd bod cyfarfod nesaf y Fforwm eisoes wedi'i drefnu i gael ei gynnal yng Nghaerfyrddin.

8.5 Penderfynwyd ychwanegu'r materion a godwyd ym mharagraff 8.2 at y gwaith o gynhyrchu materion ehangach sy'n cael ei gyflawni ar hyn o bryd.

8.6 Penderfynwyd, mewn perthynas â'r angen am fethodoleg yr Iaith Gymraeg, rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i'r Panel fe y bo'n briodol.

## **9 - Materion, Gweledigaeth ac Amcanion - Ymgynghoriad Ar-lein**

9.1 Rhoddwyd i'r aelodau ddolen ar gyfer yr ymgynghoriad cyn y cyfarfod. Nodwyd bod cwestiynau'r ymgynghoriad wedi eu llywio gan drafodaethau blaenorol â'r Panel Ymgynghorol. Mae'r ymgynghoriad yn anffurfiol ac yn cael ei gyflawni o fewn fframwaith Amcanion Llesiant 2017/18 y Cyngor. Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal tan 10 Awst, 2018.

9.2 O ran cyhoeddusrwydd, nodwyd y cafodd yr arolwg sylw ar Twitter, sy'n ymddangos ar wefan ac ystafell newyddion y Cyngor. Gan nodi fod aelodau'n hapus â fformat syml yr ymgynghoriad hwn, roedd y Panel o'r farn y gallai hybu cyhoeddusrwydd fod yn briodol i gynyddu ymwybyddiaeth.

9.3 Penderfynwyd nodi cynnwys a fformat yr ymgynghoriad.

9.4 Penderfynwyd gofyn i swyddfa'r wasg gyhoeddi darn ar yr ymgynghoriad hwn a nodi bod y Cynghorydd Lenny, Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio, yn cynnig rhoi dyfyniad. Dylid anfon yr eitem at y wasg a'i rhoi'n ganolog ar y wefan gorfforaethol os yw'n bosibl. Fodd bynnag nodwyd y cyfyngiadau o ran y dyddiad cau sy'n agosáu.

## **10 Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaliadwyedd / yr Aseiad Amgylcheddol Strategol (AC/AAS)**

10.1 Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad (Crynodeb Annhechnegol) a ddarparwyd i'r Aelodau cyn y cyfarfod. Nodwyd bod gan yr Adroddiad Cwmpasu rôl bwysig o ran nodi'r materion a heriau cynaliadwyedd y mae'r Cyngor yn eu hwynebu. Nodwyd hefyd yr amcanion cynaliadwyedd arfaethedig. Roedd yr aelodau'n falch iawn bod yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn hytrach na chael barn yr ymgynghoreion statudol yn unig (Cyfoeth Naturiol Cymru a CADW).

10.2 Penderfynwyd nodi'r adroddiad.

## **11 Gweithdy ar Ddewisiadau Gofodol / Strategol**

11.1 Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad manwl a ddarparwyd i'r Aelodau cyn y cyfarfod. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwerthusiad manwl o'r 6 dewis gwahanol er mwyn i'r Panel eu hystyried. Cafodd yr adroddiad ei ategu'n briodol yn y cyfarfod gan gyflwyniad a oedd yn rhoi darlun gweledol o'r dewisiadau hyn.

11.2 Y dewisiadau a ddarparwyd oedd: (1) Y CDLI Presennol (2) Seilwaith a Rhwydwaith Priffyrdd (3) Gwasgaru (4) Dan Arweiniad y Gymuned (5) Ar sail Dylanwad Dinas-ranbarth Bae Abertawe a (6) Dan Arweiniad y Farchnad.

11.3 Gan ddiolch i'r swyddogion am y cyflwyniad, rhoddodd y Panel gyfeiriad i rai o'r ystyriaethau allweddol. Roedd barn gyffredinol bod y Dewis dan Arweiniad y Gymuned yn cael ei ffafrio. Pwysleisiwyd bod materion trawsffiniol yn hanfodol o ran datblygu dewis priodol, ond dylai pwysigrwydd deall anghenion ardaloedd gwledig fod yn ymhlyg. Yn ddelfrydol, dylid canolbwyntio'r datblygiad ar dir a ddatblygwyd o'r blaen.

11.4 Roedd pryderon ynghylch y dewisiadau hynny a oedd yn canolbwyntio'n helaeth ar y deddwyrain trefol oherwydd cyfyngiadau o ran capasiti seilwaith i'r dwyrain o Lanelli / Hendy. Roedd y Panel hefyd yn awyddus i ymchwilio i'r diffyg tai sy'n cael eu hadeiladu yng Ngorllewin Caerfyrddin.

11.5 Penderfynwyd nodi'r adroddiad a ddarparwyd a rhoi diolch i'r swyddogion am y cyflwyniad llawn gwybodaeth.

11.6 Penderfynwyd nodi'r adborth a roddwyd gan y Panel gyda'r nod o gyfrannu at y drafodaeth barhaus ynghylch datblygu'r dewisiadau cyn llunio'r Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefrir.

## **12 Cyfarfod y Fforwm Datblygwyr - 5 Gorffennaf, 2018**

12.1 Rhoddodd y swyddogion adroddiad llawn ar lafar. Gan nad oedd y sector datblygu wedi cymryd rhan yn y Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol cyntaf, roedd y digwyddiad hwn yn arbennig o ddefnyddiol o ran deall yr heriau sy'n wynebu'r datblygwyr. Roedd y datblygwyr hynny a oedd yn bresennol yn dod o gwmnïau llai (lleol yn bennaf) yn hytrach na chwmnïau sy'n adeiladu nifer o dai. Y gobaith oedd y byddai trafodaeth adeiladol wrth i'r broses llunio cynllun fynd yn ei blaen, ac mae rhagor o ddigwyddiadau ar y gweill. Roedd y fforwm hefyd wedi enwebu cynrychiolwyr i fod yn rhan o'r Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol.

12.2 Penderfynwyd: nodi'r wybodaeth ddiweddaraf a gafwyd.

12.3 Penderfynwyd dosbarthu'r nodyn a gymerwyd ar y diwrnod i Aelodau'r Panel.

12.4 Penderfynwyd bod Aelodau'r Panel yn mynd i gyfarfod y Fforwm Datblygwyr yn y dyfodol.

### **13 Ymgysylltu â Phobl Ifanc**

13.1 Rhoddodd y swyddogion adroddiad llawn ar lafar. Gan gofio nad oedd pobl ifanc wedi cymryd rhan yng nghyfarfod cyntaf y Fforwm Rhanddeiliad Allweddol, cysylltodd y swyddogion â'r Cyngor Ieuencid a chynnig mynd i'w gyfarfod(ydd) nesaf. Y prif amcan yw sicrhau cynrychiolaeth o'r Cyngor Ieuencid ar y Fforwm Rhanddeiliad Allweddol yn ogystal â chael trafodaeth adeiladol.

13.2 Penderfynwyd: nodi'r wybodaeth ddiweddaraf a gafwyd.

13.3 Penderfynwyd y byddai'r aelodau hynny o'r Panel sydd â chysylltiadau o fewn sefydliadau cynrychiadol perthnasol (megis Mudiad y Ffermwyr Ifanc) yn cyflwyno'r rhain i Dîm y Cynllun Datblygu Lleol.

13.4 Penderfynwyd y dylid rhoi ystyriaeth i gydgyssylltu ag Ysgolion Uwchradd, o bosibl drwy gynnwys y "prif fechgyn/merched" hynny.

### **14 Seminar y Cyngorau Tref a Chymuned - 30 Gorffennaf, 2018 - Llandeilo**

14.1 Dywedodd y swyddogion fod Cymorth Cynllunio Cymru yn gweithio gyda nhw i drefnu digwyddiad ar gyfer y Cyngorau Tref a Chymuned. Gall pob Cyngor anfon 2 gynrychiolydd ac mae'r digwyddiad yn rhad ac am ddim. Bydd y digwyddiad yn canolbwyntio ar feithrin gallu Cyngorau o ran cymryd rhan yn y broses llunio cynllun yn ogystal âg ymgymryd â'r gwaith o gynhyrchu materion. Nodwyd bod llythyr "atgoffa" wedi'i anfon, a rhoddwyd copïau hefyd i Gyngorwyr Sir er gwybodaeth.

14.2 Penderfynwyd: nodi'r wybodaeth ddiweddaraf a gafwyd.

### **15 Cyfarfod y Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol - 6 Medi 2018 - Caerfyrddin**

15.1 Dywedodd y swyddogion fod Cymorth Cynllunio Cymru yn gweithio gyda nhw i drefnu ail gyfarfod y Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol. Bydd y digwyddiad hwn yn canolbwyntio ar ddatblygu'r dewisiadau gofodol / strategol yn ogystal â chadarnhau gweledigaeth ac amcanion.

15.2 Penderfynwyd: nodi'r wybodaeth ddiweddaraf a gafwyd.

### **16 Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni**

16.1 Rhoddwyd ystyriaeth i'r llythyr a ddarparwyd i'r Aelodau cyn y cyfarfod. Mae'r llythyr yn cadarnhau bod Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig yn cytuno â'r amserlen. Dywedwyd wrth yr aelodau fod y Cytundeb Cyflawni eisoes wedi'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

16.2 Penderfynwyd nodi'r llythyr a gafwyd.

### **17 Diwedd y Cyfarfod a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Daeth y cyfarfod i ben am 12.05pm. Dyddiad y cyfarfod nesaf i'w gadarnhau.

## **Panel Cynghorol y Cynllun Datblygu Lleol**

### **1 Hydref 2018 – Caerfyrddin – 10.30am**

#### **1 Yn bresennol**

1.1 *Y Cynghorwyr:* Mair Stephens (Cadeirydd) Tyssul Evans, Sue Allen, Alun Lenny, Darren Price a Ken Howell (10.34am).

1.2 *Swyddogion:* Llinos Quelch – Pennaeth Cynllunio, Ian Llewelyn – Rheolwr Blaengynllunio, Bethan Lovering, Owain Enoch – Swyddogion Blaengynllunio a Steven P Murphy – Uwch Gyfreithiwr.

#### **2 Croeso a Chyflwyniadau**

2.1 Croesawodd y Cyng. Stephens bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod

#### **3 Ymddiheuriadau am absenoldeb**

3.1 Y Cyng. John James, Ieuan Davies a Kevin Madge.

#### **4 Cadarnhau'r cofnodion**

4.1 Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion drafft cyfarfod y Panel a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2018 a oedd wedi'u rhoi i'r Aelodau cyn y cyfarfod. Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyng. Lenny am gadeirio yn ei habsenoldeb ac ymatebodd y Cyng. Lenny yn briodol.

4.2 Penderfynwyd cadarnhau cofnodion 17 Gorffennaf 2018 fel y'u cyflwynwyd a chyfarwyddo'r swyddogion i'w cymryd nhw drwy'r cylch adrodd i'r Bwrdd Gweithredol.

4.3 Penderfynwyd ymhellach, pe na fyddai'r Panel yn cyfarfod am beth amser (e.e. y flwyddyn newydd), y rhoddir awdurdod i'r swyddogion gylchreddeg y cofnodion hyn (h.y. cyfarfod 1 Hydref 2018) ar ffurf drafft drwy e-bost i holl Aelodau'r Panel gyda'r bwriad o gael cadarnhad iddynt.

#### **5 Camau gweithredu presennol**

5.1 Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad ar lafar a roddwyd gan swyddogion a oedd yn crynhoi'r cynnydd a wnaed ar gamau gweithredu presennol o gyfarfodydd blaenorol y Panel.

5.2 Penderfynwyd nodi'r adroddiad llafar a roddwyd a chyfarwyddo swyddogion i restru unrhyw eitemau perthnasol ar raglenni'r Panel yn y dyfodol fel sy'n briodol.

#### **6 Cylch Gorchwyl wedi'i Ddiweddarau (Cyrhaeddodd y Cyng. Ken Howell am 10.34am)**

6.1 Nododd Aelodau'r Panel fod fersiwn gyntaf o'r Cylch Gorchwyl eisoes wedi'i chadarnhau gan y Panel a'i hadrodd gerbron y Bwrdd Gweithredol ochr yn ochr â'r tair cyfres gyntaf o gofnodion y Panel a oedd wedi'u cadarnhau.

6.2 Roedd ail fersiwn o'r Cylch Gorchwyl, a gyhoeddwyd cyn y cyfarfod, bellach gerbron y Panel er ystyriaeth. Nod y diweddariad oedd ffurfioli trefniadau i Gadeirio cyfarfod o'r Panel pe na bai'r Aelod Bwrdd Gweithredol dros Gynllunio Strategol yn gallu bod yn bresennol.

6.3 Penderfynwyd cadarnhau ail fersiwn y Cylch Gorchwyl ac adrodd amdano gerbron y Bwrdd Gweithredol yn y man.

## **7 Gweithdy Cyngorau Tref a Chymuned – 30 Gorffennaf 2018**

7.1 Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad adborth a oedd wedi'i ddarparu i'r Aelodau cyn y cyfarfod. Ymhelaethwyd ymhellach ar hyn drwy gyfraniad ar lafar gan y Cadeirydd a oedd wedi bod yn bresennol. Roedd y digwyddiad wedi'i gynnal ar y cyd â Chymorth Cynllunio Cymru.

7.2 Roedd Aelodau'r Panel yn falch o nodi bod ymdrechion yn cael eu gwneud i gysylltu â Chyngorau lleol wrth baratoi'r CDLI Diwygiedig. Roedd y sesiwn wedi canolbwyntio ar faterion a chreu datrysiadau, ynghyd â throsolwg o'r broses cynllunio datblygu.

7.3 Nododd Aelodau'r Panel y byddai digwyddiadau yn y dyfodol (yn cynnwys Fforymau Rhanddeiliaid) yn debygol o gael eu hwyluso gan swyddogion yr adain blaen-gynllunio.

7.4 Penderfynwyd nodi'r adroddiad a ddarparwyd.

## **8 Cyfarfod Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol – 13 Medi 2018**

8.1 Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad adborth a oedd wedi'i ddarparu i Aelodau cyn y cyfarfod. Ymhelaethwyd ymhellach ar hyn drwy gyfraniad ar lafar gan y Cadeirydd a oedd wedi bod yn bresennol.

8.2 Roedd y digwyddiad wedi'i gynnal ar y cyd â Chymorth Cynllunio Cymru (fel y Fforwm cyntaf a gynhaliwyd ar 23 Mai 2018). Roedd yr aelodau yn falch o nodi'r ystod eang o sefydliadau a oedd yn bresennol. Roedd y sesiwn wedi canolbwyntio ar gadarnhau consensws eang ynghylch materion oedd yn codi, gweledigaeth ac amcanion, gan dderbyn cyflwyniad ar ragamcanion poblogaeth ac aelwydydd ac ymgymryd â beirniadaeth o opsiynau gofodol.

8.3 Cafodd Aelodau'r Panel drafodaeth. Pwysleisiwyd pwysigrwydd creu cysylltiadau ehangach o fewn y Cyngor er mwyn osgoi gweithio mewn seilos.

8.4 Penderfynwyd nodi'r adroddiad a ddarparwyd.

## **9 Fforwm Datblygwyr – 5 Gorffennaf 2018 a 20 Medi 2018**

9.1 Rhoddwyd ystyriaeth i nodiadau'r cyfarfodydd uchod a oedd wedi'u darparu i'r Aelodau cyn y cyfarfod. Ymhelaethwyd ymhellach ar hyn drwy gyfraniad ar lafar gan y Cadeirydd a oedd wedi bod yn bresennol yn y ddau gyfarfod. Dylid nodi bod cynrychiolwyr o'r Fforwm Datblygwyr hefyd wedi mynychu'r Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol a gynhaliwyd ar 13 Medi 2018.

9.2 Roedd Aelodau'r Panel yn falch o nodi'r ddeialog adeiladol a oedd yn digwydd gydag ystod eang o ddatblygwyr, yn amrywio o PLCs cenedlaethol i adeiladwyr lleol. Roedd y fforwm wedi derbyn cyflwyniad ar ragamcanion poblogaeth ac aelwydydd ac wedi ymgymryd â beirniadaeth o'r opsiynau gofodol oedd yn dod i'r amlwg.

9.3 Cafodd Aelodau'r Panel drafodaeth ynghylch sut y gellir rhoi cymorth i adeiladwyr lleol / graddfa fechan ddwyn datblygiadau ymlaen. Bydd llawer o hyn yn ddibynnol ar ddewis safleoedd, ynghyd â nodi sail gadarn o dystiolaeth yn nhermau hyfywedd a rhwymedigaethau cynllunio. Pwysleisiodd Aelodau'r panel bwysigrwydd ffyrdd wedi'u mabwysiadu'n briodol a rheolaeth / cynnal a chadw priodol o fewn safleoedd. Eglurwyd wrth Aelodau'r Panel beth oedd disgwyliadau perchnogion tir ledled y Sir yn nhermau gwerthoedd tir.

9.4 Penderfynwyd nodi'r adroddiadau a ddarparwyd.

## 10 Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd Sir Gâr

10.1 Derbyniodd Aelodau'r Panel gyflwyniad gan swyddogion. Roedd copi o'r cyflwyniad wedi'i ddarparu i'r Aelodau cyn y cyfarfod. Roedd y cyflwyniad yn nodi adolygiad o broffil/proffil oed y Sir, amcanestyniadau mudo a phoblogaeth, senarios twf poblogaeth, senarios twf poblogaeth – strwythur oed, senarios demograffeg, senario wedi'i arwain gan gyflogaeth, senarios twf poblogaeth a thwf swyddi – ynghyd â ffactorau i'w hystyried wrth asesu opsiynau twf.

10.2 Aeth Aelodau'r Panel ati i adolygu'r senarios amrywiol o dwf y boblogaeth. Er mwyn sefydlu lefel o dwf a fyddai'n cyflawni amcanion adfywio corfforaethol y Cyngor, a'r cyfleoedd a gyflwynir drwy'r Fargen Ddinesig, roeddent yn ystyried ei bod hi'n bwysig mesur newid mewn poblogaeth a chreu cartrefi newydd yn erbyn nifer y swyddi a oedd yn cael eu sicrhau. Pwysleisiwyd wrth Aelodau'r Panel fod y blaenoriaethau hyn wedi'u gosod gan y Cyngor ac, o'r herwydd, roedd y CDLI yn ceisio adlewyrchu blaenoriaethau polisi.

10.3 Nodwyd, yn y berthynas rhwng poblogaeth a swyddi, y byddai twf poblogaeth dan y senarios Amcanestyniad Twf "Hirdymor" a'r Amcanestyniad Twf "Cyn y dirwasgiad" yn cefnogi twf cyflogaeth posib o 5,295 a 9,480 o swyddi yn y drefn honno ar gyfer cyfnod y Cynllun. O ganlyniad i hynny, gall y ddwy senario gyflawni twf digonol mewn swyddi i fodloni'r targed o 5,000 o swyddi a bennwyd yn Trawsnewidiadau: Cynllun Adfywio ar gyfer Sir Gâr 2015 – 2030 y Cyngor.

10.4 Nodwyd mai tua 500 o gartrefi'r flwyddyn oedd y gyfradd adeiladu gyfartalog yn Sir Gaerfyrddin ers 2007. Pwysleisiodd Aelodau'r Panel ei bod hi'n bwysig bod y twf a nodir yn sicrhau bod digon o gyfleoedd ar gael i gynyddu'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy hyd yr eithaf ac i ystyried anghenion a materion gwledig, gan adlewyrchu'r pwyslais a'r gofynion yn nhermau datblygiadau cynaliadwy.

10.5 Er na fyddai'r CDLI yn gallu dylanwadu'n uniongyrchol ar bwy sy'n prynu tai newydd, cafwyd trafodaeth ynghylch pa mor bwysig yw denu pobl ifanc yn ôl i'r ardal ac, o'r herwydd, nodwyd bod angen ymagwedd gydgyssylltiedig (e.e. gydag addysg, tai a datblygiad economaidd) unwaith eto. Ar ben hynny, yr oedd pwyslais cryf ar ystyriaethau'n gysylltiedig ag effaith datblygu ar y Gymraeg.

10.6 Nododd Aelodau'r Panel fod y senario "Amcanestyniad Twf Hirdymor" yn ceisio caniatáu ar gyfer swyddi newydd fyddai'n cael eu creu, a hefyd yn tanategu gofyniad am 10,195 o gartrefi newydd hyd 2033. Nodwyd, er bod y ffigwr hwn yn uwch na'r hyn a nodwyd yn amcanestyniadau LIC ar sail 2014, ei fod hefyd yn sylweddol is na'r ffigur yn y CDLI cyfredol sy'n darparu ar gyfer 15,197 o gartrefi.

10.7 Derbyniwyd bod yr amcanestyniadau'n seiliedig ar yr wybodaeth orau oedd ar gael. Gofynnwyd am gael rhannu'r dystiolaeth ategol a'r fethodoleg wrth wraidd yr amcanestyniadau. Ar ben hynny, gofynnodd Aelodau'r Panel am ddadansoddiad o nifer y swyddi a grëwyd a natur y swyddi hynny dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys eu lleoliad, gyda'r bwriad o greu cyd berthynas rhwng y rhain a'r 500 o dai oedd yn cael eu darparu.

10.8 Penderfynwyd nodi'r cyflwyniad.

10.9 Penderfynwyd y dylid cael gwybodaeth am y nifer a'r math o swyddi a grëwyd, yn cynnwys eu lleoliad, dros y blynyddoedd diweddar er mwyn mesur y rhain yn erbyn y ffigyrau darparu tai o tua 500 o gartrefi'r flwyddyn dros y 3 blynedd diwethaf.

10.10 Penderfynwyd y dylid darparu'r dystiolaeth ategol (adroddiad Edge Analytics) i Aelodau'r Panel fel y gallent adolygu'r fethodoleg y tu ôl i'r prif ffigyrau a ddarparwyd.

## **11 Y Strategaeth a Ffefrir**

11.1 Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd wedi'i ddarparu i Aelodau'r Panel cyn y cyfarfod. Roedd yr adroddiad yn nodi trosolwg o brif gydrannau'r Strategaeth ddrafft a fyddai'n mynd ar ei hynt drwy'r cylch adrodd dros y misoedd nesaf. Yn dibynnu ar gymeradwyaeth y Cyngor, byddai'r Strategaeth a Ffefrir yn cael ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ym mis Rhagfyr 2018. Roedd 2 atodiad yn ei chefnogi, sef (1) fframwaith aneddiadau a (2) rhestr o brif faterion, gweledigaeth ac amcanion y Cynllun.

11.2 Nododd Aelodau'r Panel na fyddai'r strategaeth a ffefrir yn cynnwys dyraniadau safle-benodol na chyfyngiadau datblygu/ffiniau aneddiadau (er enghraifft, safleoedd tai neu gyflogaeth) na pholisïau cynllunio manwl neu benodol. Ymhellach, nododd Aelodau'r Panel hefyd na fyddai canlyniadau'r darpar safleoedd a gyflwynwyd ar gael ar y cam hwn.

11.3 Roedd y cydrannau nodedig hynny a fyddai'n cael eu cynnwys o fewn y Strategaeth, a'u hadolygu o fewn y papur a ddarperir i'r Panel, yn cynnwys: Materion, Gweledigaeth ac Amcanion, gofynion twf, strategaeth ofodol a pholisïau strategol. Yng nghyswllt y strategaeth ofodol, nododd yr Aelodau fod y papur yn ymhelaethu ar y chwe opsiwn gofodol a drafodwyd yn flaenorol gan y Panel drwy nodi Opsiwn Hybrid. Gelwir yr opsiwn hwn yn "Strategaeth Cymuned Gytbwys a Thwf Cynaliadwy" ac mae'n seiliedig ar fewnbwn y Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol. Ystyriodd yr Aelodau'r 2 atodiad a ddarparwyd hefyd, a'u nodi.

11.4 Cadarnhawyd y byddai'r Strategaeth a Ffefrir ddrafft yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor cyn cael ei chyhoeddi am ymgynghoriad. Byddai unrhyw ymatebion a geir hefyd yn cael eu hadrodd gerbron y Cyngor.

11.5 Penderfynwyd nodi'r adroddiad a ddarparwyd.

## **12 Cau'r Cyfarfod a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Daeth y cyfarfod i ben am 12.25pm. Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith. Byddai dyddiad y cyfarfod nesaf yn cael ei gadarnhau.

## **Panel Cynghorol y Cynllun Datblygu Lleol**

### **26 Hydref 2018 Caerfyrddin 2pm**

#### **1 Yn bresennol**

1.1 *Y Cynghorwyr:* Mair Stephens (Cadeirydd) Tyssul Evans (2.05pm), Sue Allen, Alun Lenny, Ken Howell, John James, Kevin Madge ac Ieuan Davies.

1.2 *Swyddogion:* Llinos Quelch - Pennaeth Cynllunio, Ian Llewelyn - Rheolwr Blaen-gynllunio, Owain Enoch - Rheolwr Blaen-gynllunio a Rebecca R Stone, Swyddog Cynaliadwyedd a Chymorth Ecolegol.

*Arall: Cyfieithydd (Dylid nodi yr oedd cyfieithydd hefyd yn bresennol yn y cyfarfodydd ar 17 Gorffennaf 2018 a 1 Hydref 2018)*

#### **2 Croeso a Chyflwyniadau**

2.1 Croesawodd y Cynghorydd Stephens bawb i'r cyfarfod

#### **3 Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

3.1 Y Cynghorydd Darren Price a Mr Steven P Murphy, Uwch-gyfreithiwr.

#### **4 Cadarnhau Cofnodion (*Cyrhaeddodd y Cynghorydd T Evans am 2.05pm*)**

4.1 Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion drafft cyfarfod y Panel a gynhaliwyd ar 1 Hydref 2018, a roddwyd i'r Aelodau cyn y cyfarfod.

4.2 Penderfynwyd cadarnhau'r cofnodion fel y'u cyflwynwyd a chyfarwyddo'r swyddogion i'w harwain drwy'r broses o adrodd i'r Bwrdd Gweithredol.

4.3 Penderfynwyd, pe na fyddai'r Panel yn cyfarfod eto am gryn amser (e.e. y flwyddyn newydd), rhoddid awdurdod i'r swyddogion ddisbarthu'r cofnodion hyn (h.y. cyfarfod 26 Hydref 2018) ar ffurf drafft drwy e-bost at holl Aelodau'r Panel er mwyn cael cadarnhad ohonynt.

4.4 Penderfynwyd rhoi awdurdod i'r swyddogion gyhoeddi'r cofnodion a gadarnhawyd o gyfarfodydd 1 i 7 y Panel ochr yn ochr â Fersiwn Drafft o'r Strategaeth a Ffebrir, hyd yn oed os ydyw hyn cyn bod cofnodion cyfarfodydd 4 i 7 yn cael eu cyflwyno gerbron y Bwrdd Gweithredol. Yn ogystal, o ystyried y mân newidiadau i'r Cylch Gwaith yng nghyfarfod 6, ni fydd angen adrodd i'r Bwrdd Gweithredol am y Cylch Gwaith diwygiedig.

#### **5 Camau gweithredu presennol**

5.1 Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad a roddwyd ar lafar gan swyddogion a oedd yn crynhoi'r cynnydd sy'n cael ei wneud ynghylch y camau gweithredu presennol yn dilyn cyfarfodydd blaenorol y Panel.

5.2 Penderfynwyd nodi'r adroddiad a roddwyd ar lafar a chyfarwyddo swyddogion i restru unrhyw eitemau perthnasol ar agendâu'r Panel yn y dyfodol lle bo hynny'n briodol.

#### **6 Fersiwn Drafft o'r Strategaeth a Ffebrir o ran y CDLI Diwygiedig**

6.1 Rhoddwyd ystyriaeth i'r Strategaeth a Ffebrir o ran y CDLI Diwygiedig (Fersiwn Drafft o'r Strategaeth a Ffebrir) a roddwyd i'r Aelodau cyn y cyfarfod. Nodwyd bod yr Adroddiad wedi'i gyflwyno gerbron y Bwrdd Gweithredol ar 22 Hydref 2018. Bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir llawn ar 14 Tachwedd 2018. Yn ddibynnol ar benderfyniad y Cyngor Sir llawn, bydd yn cael ei gyhoeddi fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol am gyfnod statudol o 6 wythnos



o leiaf. Nodwyd bod y Cytundeb Cyflawni yn nodi bydd y Fersiwn Drafft o'r Strategaeth a Ffefrir yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2017 ar gyfer ymgynghoriad.

6.2 Mae'r Fersiwn Drafft o'r Strategaeth a Ffefrir yn nodi gweledigaeth arfaethedig o ran defnydd y tir, amcanion strategol a gofynion twf strategol ar gyfer y Sir hyd at 2033. Mae hefyd yn cynnwys materion allweddol y Cynllun.

6.3 O ran y lefelau twf arfaethedig, nodwyd er mwyn cyfrannu at gyflawni amcanion creu swyddi a datblygu economaidd y Cyngor, fod y Fersiwn Drafft o'r Strategaeth a Ffefrir yn nodi ei bod yn ofynnol darparu 9,887 o gartrefi newydd erbyn 2033.

6.4 O ran lleoliad arfaethedig y twf arfaethedig, mae'r Fersiwn Drafft o'r Strategaeth a Ffefrir yn seiliedig ar "*Strategaeth Cymunedau Cytbwys a Thwf Cynaliadwy*".

6.5 Mae'r Fersiwn Drafft o'r Strategaeth a Ffefrir yn cynnwys cyfres o Bolisiâu Strategol gyda'r bwriad o fynd ati i gyflawni'r CDLI Diwygiedig a'i amcanion strategol. Mae'r polisiâu hyn yn cael eu grwpio o dan amcanion llesiant sy'n deillio o Gynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus "*Y Sir Gâr a Garem*".

6.6 Cyfeiriwyd hefyd at y Profion Cadernid a'r ffaith y bydd y Cynllun yn destun Archwiliad Annibynnol maes o law.

6.7 Cafwyd trafodaeth lawn ynghylch amrywiaeth o faterion, a nodwyd yr isod:

- Cadarnhaodd y swyddogion, o gofio mai 1/4/18 yw dyddiad dechrau'r Cynllun, bydd tai (gan gynnwys tai fforddiadwy) a gwblhawyd ers y dyddiad hwn eisoes yn cwtogi ar ofyniad tai y CDLI Diwygiedig;
- Nodwyd y dylai'r cysylltiad rhwng cartrefi newydd a swyddi newydd gael ei lywio gan y ffaith bod y CDLI Diwygiedig yn gynllun defnydd tir ac o ganlyniad bydd yn llunio rhan o becyn ehangach o ymyriadau corfforaethol gan y Cyngor a'i bartneriaid;
- Dylai datblygu tystiolaeth sylfaenol bendant roi'r Cyngor mewn sefyllfa gref yn yr Archwiliad, yn enwedig o ran mynd i'r afael ag unrhyw bryderon ynghylch ffigurau tai;
- Pwysleisiodd y Panel fod rhannau o'r Sir wedi cyrraedd yr uchafswm o ran datblygiadau tai, yn arbennig ardal yr Hendy / Cyffordd 48 yr M4. Mae angen hefyd deall goblygiadau ehangach hyn i ddyheadau o ran datblygu strategol yn Llanelli. Wrth nodi'r pryderon yn ne-ddwyrain y Sir, pwysleisiodd y Panel hefyd yr angen am dai mewn ardaloedd gwledig;
- Pwysleisiodd y Panel fod angen bod yn rhagofalus o ran perygl llifogydd a newid hinsawdd. Bydd y mapiau diwygiedig a gyhoeddir gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn cynnwys lwfansau newid yn yr hinsawdd, ac mae tystiolaeth yn cael ei datblygu yn yr Adain Blaen-gynllunio hefyd;
- Bydd yn bwysig nodi safleoedd ar gyfer tai fforddiadwy ac felly mae gwaith cyswllt yn parhau â'r Adran Tai Fforddiadwy gyda golwg ar gael dealltwriaeth o'r angen;
- Mae angen cyfuniad priodol o dai newydd i gydnabod y galw (e.e. poblogaeth hŷn) tra hefyd nodi'r angen am wneud defnydd effeithiol o dir;
- Rhoddwyd gwybod i Aelodau'r Panel am y sefyllfa o ran ffracio yng Nghymru;
- Er y cydnabuwyd pwysigrwydd dull cydlynol, roedd pryder ynghylch cyfraniad y Bwrdd Iechyd Lleol o ran y broses o lunio Cynllun a chytunodd holl aelodau'r Panel fod angen gofyn i'r Bwrdd gyfrannu - yn arbennig o ran anghenion llety ei staff / hyfforddeion.

6.8 Penderfynwyd y bydd y Cadeirydd yn gohebu â'r Bwrdd Iechyd Lleol.

6.9 Penderfynwyd nodi'r adroddiad a roddwyd a rhoi diolch i'r swyddogion am eu gwaith.

## **7 Fersiwn Drafft o'r Arfarniad Cynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol o'r Fersiwn Drafft o'r Strategaeth a Ffefrir**

7.1 Rhoddwyd ystyriaeth i'r Fersiwn Drafft o'r Arfarniad Cynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol (AC/AAS) o'r Fersiwn Drafft o'r Strategaeth a Ffefrir a roddwyd i'r Aelodau cyn y cyfarfod. Bydd yr AC/AAS hwn yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori ochr yn ochr â'r Fersiwn Drafft o'r Strategaeth a Ffefrir.

7.2 Rhoddwyd gwybod i Aelodau'r Panel y bydd y Fersiwn Drafft o'r Strategaeth a Ffefrir yn cael ei gyhoeddi ynghyd â chyfres o ddogfennau tystiolaeth a dogfennau eraill. Mae Adroddiad Cychwynnol yr AC/AAS yn ddogfen allweddol ymhlith y dogfennau hyn (gweler Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol 2001/42/EC1).

7.3 Nododd yr aelodau fod yr adroddiad yn cyfeirio at newid a argymhellwyd i'r weledigaeth arfaethedig y CDLI Diwygiedig. Roeddent yn falch o nodi dull ailadroddol a thryloyw yr AC/AAS o ran y CDLI Diwygiedig.

7.4 Penderfynwyd nodi'r adroddiad a roddwyd a rhoi diolch i'r swyddogion am eu gwaith.

## **8 Drafft o'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o'r Fersiwn Drafft o'r Strategaeth a Ffefrir**

8.1 Rhoddwyd adroddiad ar lafar ynghylch y gwaith o baratoi Adroddiad Sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Nodwyd y bydd hyn ar gael i adrodd amdano yn y Cyngor Sir llawn. Rhoddwyd gwybod i Aelodau'r Panel fod Adroddiad Sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ystyried cynnwys y Fersiwn Drafft o'r Strategaeth a Ffefrir ac felly mae'n cael ei gyflawni wrth gwblhau'r Fersiwn Drafft o'r Strategaeth a Ffefrir ac wrth iddo fynd drwy'r broses adrodd. Bydd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn yn cael ei gyhoeddi er mwyn ymgynghori ochr yn ochr â'r Fersiwn Drafft o'r Strategaeth a Ffefrir.

8.2 Cyfeiriwyd yn benodol at y goblygiadau yn ardaloedd Cross Hands a Llanelli, yn arbennig o ran Caeau'r Mynydd Mawr a Bae Caerfyrddin. Pwysleisiodd Aelodau'r Panel hefyd bwysigrwydd poblogaethau adar ledled y Sir a chytunwyd y byddai dull seilwaith gwyrdd yn galluogi ystyried amrywiaeth o faterion.

8.3 Penderfynwyd nodi'r adroddiad a roddwyd a rhoi diolch i'r swyddogion am eu gwaith.

## **9 Diwedd y Cyfarfod a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.30pm. Dyddiad y cyfarfod nesaf i'w gadarnhau.